The service continues to provide the wide range of programming that, in the Authority’s opinion, is fundamental to a Welsh language public service media content provider, offering a variety of information and entertainment and ensuring an authentic and original Welsh voice for the service.

There was strong performance in a number of popular genres during the year. These included drama, sport, daily magazine programmes, entertainment, factual entertainment and comedy, the Cyw provision for young children, coverage from national events, and news. Audience appreciation of the provision is consistently high and attests to the important role these programmes have in the S4C schedule.

Whilst very proud of the success of the service as a whole and of particular elements of the provision, the Authority is aware of the need to ensure constant challenge – to S4C itself and also for the creative community that develops the ideas and produces the content, so as to ensure that our Welsh language service continues to develop, continues to entertain and challenge our audience, and continues to maintain high standards of public service broadcasting. With this in mind, the Authority believes that continuing development work is required in areas such as entertainment and comedy, rural programmes and the provision for learners in order to ensure the best possible treatment of subjects, consistent quality and to ensure that the provision meets the audience’s requirements.

The task of knowing the audience and understanding their wishes and viewing patterns - in a period where we can see fundamental changes in the ways in which traditional and new S4C viewers choose to watch content - remains a strategic priority.

Choices and prioritisation

Despite the service’s successes, the coat must be cut according to the cloth and it is inevitable that this leads to decisions and choices which limit S4C’s creative vision and the service we can provide our audience. We have tried to protect the service - and the viewing experience - to the best of our ability, but some examples can be found of decisions that can be seen on screen and which could impact on the viewers’ experience.

These include the percentage of the service which consists of repeated programmes, which stands at 63%. Regular viewers feel frustrated when the service is not able to offer new content consistently, especially during the summer period, as a result of the conscious decision to focus investment on new content during the other periods of the year when the potential audience is larger. This pressure also manifests itself in the inability to provide original, high quality drama throughout the year, especially as such drama is an increasing feature of the other main channels, and in the constraints on S4C’s ability to commission original content for children and young people.

The Authority monitors such decisions and weighs those difficult choices that have to be made to maintain quality and diversity of content in the context of a content budget under pressure.

In addition to the creative partnership with the independent production sector, the partnership between S4C and BBC Cymru (which includes the provision of programmes provided to S4C by BBC Cymru under the statutory requirements and the Strategic Partnership Agreement) continues to play a key role in delivering S4C’s strategy. BBC Cymru provides a range of series that form cornerstones of the service - including the daily soap opera, Pobol y Cwm, Newyddion 9 news provision, the National Eisteddfod and elements of S4C’s sports coverage. The BBC and S4C agree annually in advance the nature of the content to be provided under the statutory requirements.

Drama

Mae'r arlwy drama'n parhau'n un o gryfderau'r gwasanaeth, gyda drama'n ymddangos yn gyson ar restr blaenoriaethau'r gynulleidfa. Gwelwyd uchelfannau creadigol gwirioneddol gofiadwy yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 35 Diwrnod a thrydedd cyfres Y Gwyll. Fe ddenodd Y Gwyll gyrhaeddiad uwch nac unrhyw un o'r cyfresi blaenorol, ac roedd cynulleidfa 35 Diwrnod hefyd yn uwch na'r gyfresi flaenorol. Parhaodd Byw Celwydd i greu cymeriadau a gwrthdaro gwleidyddol oedd yn gafael.

Drama

The drama provision continues to be one of the key strengths of the service, with drama appearing regularly on the audience's list of priorities. A number of truly memorable creative highlights were broadcast during the year, including 35 Diwrnod and the third series of Y Gwyll/Hinterland. Y Gwyll's audience reach was higher than for any of its previous series, with 35 Diwrnod's audience also higher than the previous series. Byw Celwydd continued to generate gripping characters and political conflict.





Cyw

Mae poblogrwydd Cyw a'i ffrindiau'n parhau'n dyst i lwyddiant y ddarpariaeth i blant oed meithrin. Ni ellir gorbrisio pwysigrwydd y ddarpariaeth i blant ifanc - o ran cynnig darpariaeth hwyliog, cyffrous a safonol yn y Gymraeg, sy'n gallu cystadlu am sylw gyda sianelau a gwasanaethau Prydeinig a rhyngwladol.

Does dim dwywaith am bwysigrwydd y ddarpariaeth o ran cynnig cyfleoedd i blant ifanc gaffael a defnyddio'r iaith. Mae'r ddarpariaeth yn rhan bwysig o gyfraniad S4C o ran hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg, gan ategu uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i 1 miliwn erbyn 2050.

Er mwyn sicrhau llais Cymreig i'r ddarpariaeth, rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu rhaglenni gwreiddiol a chafwyd gwerthfawrogiad uchel i nifer o gyfresi newydd megis Deian a Loli a Da 'Di Dona. Mae gwaith ymchwil S4C yn tystio i werthfawrogiad uchel y gynulleidfa o ddarpariaeth Cyw.

Gwelwyd cynnydd yng nghyrraeddaiad Cyw ar deledu ar draws y DU yn ystod y flwyddyn, ac arlein, Cyw yw elfen fwyaf poblogaidd darpariaeth S4C.

Cyw

The popularity of Cyw and her friends continues to bear witness to the success of the provision for nursery age children. The importance of this provision for young children cannot be over-estimated - in terms of providing entertaining, exciting and high quality content in Welsh, which is able to compete for attention with British and international channels and services.

The importance of the provision in offering opportunities for young children to acquire and use the language is beyond doubt. The provision forms an important part of S4C's contribution to promoting and developing the use of the Welsh language, complementing the Welsh Government's ambition to increase the number of Welsh speakers in Wales to 1 million by 2050.

To ensure the provision maintains a Welsh voice, priority was given to developing original programming, and new series such as Deian a Loli and Da 'Di Dona received high appreciation. S4C's research testifies to the audience's high appreciation of Cyw's provision.

Cyw's reach on television across the UK during the year increased, and online, Cyw remains the most popular element of S4C's provision.

Stwnsh a phlant hŷn

Mae apelio i oedran cynulleidfa Stwnsh yn her i bob darlledwr. Ceir ymdrech sylweddol gan S4C a thîm cynhyrchu Stwnsh i greu rhaglenni gwreiddiol sy'n apelio i'r gynulleidfa. Mae TAG, Chwarter Call a Pwy Geith y Gig yn esiamplau llwyddiannus o'r strategaeth o fuddsoddi mewn rhaglenni safonol. Mae sioeau Stwnsh yn yr Eisteddfodau hefyd yn dyst i boblogrwydd y ddarpariaeth ymysg plant hyn a phobl ifanc.

Lansiwyd arbrawf Sianel Pump ar YouTube, gydag amrywiaeth eang o eitemau a phynciau wedi ennyn dilyniant cynulleidfa ifanc arlein. Roedd lansi Sianel Pump yn rhan o Strategaeth Ddigidol S4C er mwyn arbrofi gyda chynnwys a llwyfannau newydd. Bellach mae'r ddarpariaeth wedi datblygu o dan frand Hansh.

Stwnsh and older children

Appealing to Stwnsh's target age group poses a challenge for all broadcasters. S4C and Stwnsh's production team's make a substantial effort to produce original programming that appeals to the audience and TAG, Pwy Geith y Gig and Chwarter Call are successful examples of the strategy of investing in quality programming. Stwnsh's shows in the Eisteddfodau are also proof of the popularity of the provision among children and young people.

The Sianel Pump experiment on YouTube launched during the year, with a wide variety of items and topics that have generated a young online following. The launch of Sianel Pump was part of S4C's Digital Strategy to trial new content and platforms. The provision has now developed further under the Hansh brand.

Rhaglenni Dyddiol, Hamdden a Nodwedd

Mae'r rhaglenni dyddiol, Prynawn Da a Heno yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r amserlen yn y prynhawn a gyda'r nos. Drwy'r flwyddyn maent yn cynnig arlwy gynhwysfawr o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru a thu hwnt, ac maent yn gyfrwng pwysig o ran portreadu Cymru ac amrywiaeth cymdeithas.

Mae'r chwant am eitemau unigol o'r rhaglenni hyn yn dyst i bwysigrwydd y ddarpariaeth - gyda Heno a Prawn Da yn gyfrifol am fwy nac 20% o'r holl sesiynau gwyllo ar lwyfannau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth hamdden, sy'n cynnwys cyfresi megis Garddio a Mwy, yn datblygu o ran ei apêl i'r gynulleidfa, sy'n nodi'n gyson eu bod am weld rhaglenni a phynciau hamdden yn rhan o'r amserlen oriau brig. Mae ffigurau gwyllo'r ddarpariaeth wedi cynyddu blwyddyn ar flwyddyn, ac mae wedi llwyddo i ddenu gwylwyr newydd i'r arlwy.

Daily Magazine, Leisure and Feature programmes

Heno and Prawn Da, the daily magazine programmes, continue to be a core part of the afternoon and evening schedules. Throughout the year they offer comprehensive coverage of activities and community events throughout Wales and beyond and play an important role in portraying Wales and the diversity of society.

The demand for individual items from these programmes is testament to the importance of the provision - with Heno and Prawn Da generating more than 20% of all viewing sessions on social media platforms during the year.

The provision of leisure programming, including series such as Garddio a Mwy, continues to develop in terms of its appeal to the audience, who consistently state that they wish to see more leisure programming and topics in the primetime schedule. Year on year, viewing figures have increased for this provision, which has succeeded in attracting new viewers to the service.



Newyddion a Materion Cyfoes

Cafwyd darpariaeth newyddion safonol a threiddgar unwaith eto diolch i dim BBC Cymru. Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa i'r ddarpariaeth yn parhau'n uchel, gyda sylwadau cyson mewn nosweithiau gwylwyr am safon y ddarpariaeth a gwerthfawrogiad o ran cydbwysedd straeon Cymreig, Prydeinig a Rhyngwladol y ddarpariaeth. Mae'r ffaith fod ffigyrau gwyllo Newyddion 9 wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn hefyd yn dyst i lwyddiant y gyfres. Unwaith eto cafwyd darpariaeth gynhwysfawr a safonol o Etholiadau'r Cynulliad a'r refferendwm ar aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r arlwy materion cyfoes, ac arbenigedd Y Byd ar Bedwar a thim cynhyrchu ITV Cymru wedi sicrhau fod ystod o leisiau a safbwyntiau'n cael eu cyflwyno wrth drafod amrediad eang o straeon cyfredol a pherthnasol.

News and Current Affairs

The news provision was once again insightful and high quality, thanks to the BBC Cymru team. Audience appreciation of the provision remains high, with regular feedback in viewers' evenings regarding its quality, and appreciation of the balance struck between Welsh, UK and international stories. The fact that Newyddion 9 viewing figures continued to increase year on year also demonstrated its success. The coverage of the Assembly elections and the referendum on membership of the European Union was once again comprehensive and of high quality.

The current affairs provision, and the expertise shown by the Byd Ar Bedwar's production team at ITV Cymru has ensured that a range of voices and opinions are presented across a wide range of topical and relevant stories.



Ffeithiol

Rhodddwyd pwyslais ar gyflwyno straeon personol, cymeriadau didwyll a straeon dirdynnol yn ystod y flwyddyn, ac mae gwerthfawrogiad uchel y gynulleidfa (gyda 75% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n dangos rhaglenni dogfen sy'n berthnasol i bobl Cymru, llawer uwch nac unrhyw sianel arall) yn dyst i lwyddiant hyn.

Mae cyfresi a rhaglenni unigol megis Ward Plant, Hen Blant Bach, Iestyn Garlick: Stori Mabwysiadu, Trefi Gwyllt Iolo, Y Ditectif, Y Gwir Sy'n Lladd, Loriau Mansel Davies a Doctoriaid Yfory yn dangos ystod y pynciau a'r straeon sy'n cael sylw o fewn y ddarpariaeth dogfen.

Factual

Emphasis was placed during the year on featuring human interest stories, often of a harrowing nature, which demonstrated sincerity and honesty. The high audience appreciation (75% of Welsh speaking viewers believe that S4C is a channel that shows documentaries which are relevant to Welsh people, considerably than any other channel) is testament to the success of this policy.

Individual programmes and series such as Ward Plant, Hen Blant Bach, Iestyn Garlick: Stori Mabwysiadu, Trefi Gwyllt Iolo, Y Ditectif, Y Gwir Sy'n Lladd, Loriau Mansel Davies and Doctoriaid Yfory show the range of subjects and stories presented within the documentary provision.



Operau Sebon

Mae Pobol y Cwm a Rownd a Rownd yn parhau'n rhan greiddiol o'r ddarpariaeth oriau brig yn ystod yr wythnos gyda thystiolaeth bod y ddwy gyfres yn denu cynulleidfaoedd gwahanol i'w gilydd, ond ffyddlon. Mae'r ddwy gyfres yn ennyn gwerthfawrogiad uchel, yn cynnal ffigyrau gwyllo calonogol ar deledu ac yn gyson uchel ar y rhestrau gwyllo arlein. Mae gwylwyr yn ymateb yn gryf i straeon a chymeriadau penodol ac mae'r cynhyrchwyr yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cynnal diddordeb, o fewn terfynau credadwy bywyd bob dydd.

Soap Operas

Pobol y Cwm and Rownd a Rownd continue to be a key element of the peak hours provision on weekdays, with evidence that both series attract faithful yet different audiences. Both series are highly appreciated, maintain encouraging viewing figures on television and are consistently ranked amongst the most watched programmes online. Viewers react strongly to certain stories and characters and the producers are well aware of the importance of maintaining the audience's interest, within the plausible limits of everyday life.



Pobol y Cwm



Adloniant a Chomedi

Mae adloniant a chomedi'n feysydd sy'n cael sylw rheolaidd gan ein gwylwyr mewn Nosweithiau Gwylwyr, lle mae eu hawydd i weld rhaglenni adloniant gwreiddiol a safonol ar S4C yn cael ei fynegi'n glir. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd nifer o gyfresi adloniant a chomedi sydd wedi llwyddo i gyrraedd y nod. Mae cyrhaeddiad y ddarpariaeth adloniant wedi cynyddu 10% ac mae'n amlwg fod hiwmor a hwyl deuluol wedi apelio, gyda chymeriadau a chyfresi megis Wil ac Aeron: Taith yr Alban, Priodas Pum Mil a'r Salon yn cynnig adloniant difyr, a Chymreig. Mae gwreiddioldeb y cyfresi hyn yn rhan bwysig o'u hapêl.

Mae enwau newydd wedi cyfrannu at yr arlwy comedi eleni, gan gynnwys criw R'un Sbit a Darren Drws Nesa. Mae Darren Drws Nesa wedi llwyddo i apelio i broffil oedran ieuengach a gwyllo teuluol. Gwelwyd trafodaeth frwd ar gyfryngau cymdeithasol am R'un Sbit, sydd wedi cyflwyno darlun llawn hiwmor Cymreig i gynulleidfa ifanc. Yr her oesol gyda'r syniadau comedi newydd fydd cynnal doniolwch a gwreiddioldeb y cymeriadau.

Entertainment & Comedy

Entertainment and comedy are subjects that are discussed regularly at our Viewers' Evenings, with the audience's desire for original high quality entertainment programming being clearly expressed. Several entertainment and comedy series hit the mark during the year. Reach of the entertainment provision has increased 10% and it is clear that humour and fun aimed at family viewing appeals to the audience, with characters and series such as Wil ac Aeron: Taith yr Alban, Priodas Pum Mil, and Salon offering entertainment which is both fun to watch and recognisably Welsh. The originality of these series is an important part of their appeal.

New names have contributed to the comedy provision this year, including R'un Sbit and Darren Drws Nesa. Darren Drws Nesa has managed to appeal to a younger age profile as well as family viewing. R'un Sbit, which has presented its very Welsh type of humour to a younger audience, gave rise to enthusiastic discussions on social media. The age-old challenge for these new comedy ideas will be to maintain the characters' humour and originality.

Chwaraeon

Mae adlewyrchu ystod o chwaraeon a champau, a dilyn timau lleol a chenedlaethol yn greiddiol i wasanaeth darlledu cyhoeddus ac mae S4C yn falch iawn o lwyddiant yr arlwy chwaraeon, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol sy'n perthyn i ennill hawliau darlledu chwaraeon erbyn hyn. Mae'r ddarpariaeth chwaraeon yn bwysig iawn er mwyn cadw cyswllt gyda gwylwyr gwrywaidd ifanc sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n llai rhugl.

Uchafbwynt mawr y ddarpariaeth eleni oedd dilyn ar ei hyd daith hanesyddol y tîm pêl-droed cenedlaethol i bencampwriaethau Euro 2016. Roedd cyflwyniad a sylwebaeth tîm S4C o safon uchel iawn, gyda'i bwyslais Cymreig a brwdfrydig yn taro'r nodyn iawn a lleisiau Nic Parry a Malcolm Allen i'w clywed yn glir mewn cartrefi, ysgolion, swyddfeydd a thafarndai drwy'r wlad.

Mae'r arlwy hefyd yn cynnwys Sgorio a Clwb Rygbi, ac ystod o gynghreiriau rygbi domestig a chenedlaethol, gan gynnwys Pencampwriaeth y 6 Gwlad. Denodd gem beldroed Gweriniaeth Iwerddon v. Cymru ddiwedd fis Mawrth gyrrhaeddiad uchaf unrhyw raglen ers 2014.

Mae'r ddarpariaeth yn parhau i fod yn boblogaidd ar deledu ac arlein, ac rydym yn gweld cynulleidfaoedd newydd yn datblygu wrth i S4C arbrofi gyda ffrydio byw arlein yn unig i rai cystadlaethau megis gemau dan 20 a gemau Varsity. Mae'r gallu i gynnig clipiau byrion o bob gôl neu gais hefyd yn profi'n ddarpariaeth boblogaidd iawn, sy'n destun trafodaeth yn aml ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gynulleidfa'n dymuno gweld ystod o chwaraeon byw ar S4C, ond mae poblogrwydd rhaglenni uchafbwyntiau yn lleihau wrth i uchafbwyntiau gemau ddod ar gael yn syth ar ystod o wasanaethau arlein. Lle nad yw hawliau byw ar gael am bris fforddiadwy bydd yn rhaid ystyried yn ofalus a fydd rhaglenni uchafbwyntiau yn denu'r gwylwyr.

Sports

Reflecting a range of sports and following local and national teams is at the core of public broadcasting services and S4C is very proud of the success of the sports offering, especially given the financial challenges posed by the costs of sports broadcasting rights. Sports coverage is particularly important in maintaining contact with young male Welsh-speakers and less fluent Welsh-speakers.

The major highlight of the provision was being able to follow the national football team's journey to the Euro 2016 championships. The S4C team's presentation and commentary was of a very high standard, with its enthusiastic and Welsh emphasis hitting the right note and Nic Parry and Malcolm Allen's voices were heard clearly in homes, schools, offices and pubs throughout the country.

Sports coverage also includes Sgorio and Clwb Rygbi, together with a range of domestic and national rugby leagues, including the 6 Nations Championship. The Republic of Ireland v. Wales's football match at the end of March attracted the highest reach of any programme since 2014.

The provision continues to be popular on TV and online, and we are seeing the development of new audiences as S4C experiments with live online-only streaming of some competitions such as Under 20s and Varsity matches. The ability to offer short clips of each goal or try is also proving very popular and often the subject of discussion on social media.

The audience wants to see a range of live sports on S4C, but the popularity of highlights programmes is diminishing as highlights become immediately available on a range of online services. Where live rights cannot be acquired at affordable prices, careful consideration will be required as to whether highlights programmes will attract viewers.



Digwyddiadau

Mae'n destun balchder fod S4C yn parhau i fod yn brif lwyfan ar gyfer digwyddiadau Cymru. Mae'r defnydd o'r ddarpariaeth - arlein ac ar deledu, ynghyd â gwerthfawrogiad uchel y gynulleidfa a'n partneriaid sy'n trefnu'r digwyddiadau'n dyst i bwysigrwydd a llwyddiant y ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth yn para trwy gyfnod y gwyliau cenedlaethol, gan roi sylw i Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, y Sioe Amaethyddol, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyl Gerdd Dant.

Events

It is a matter of pride that S4C continues to be the main platform for events in Wales. Usage of the coverage - online and on television, together with the high appreciation both of the audience and of the partners who organise these events demonstrates the importance and success of the provision. The provision spans the period of the national events from the Urdd Eisteddfod, Llangollen International Eisteddfod, the Royal Welsh Show, the National Eisteddfod through to the Gwyl Cerdd Dant.



Cerddoriaeth a'r Celfyddydau

Mae enw da S4C fel sianel sy'n dangos y rhaglenni cerddoriaeth gorau yng Nghymru yn parhau, gyda sgoriau gwerthfawrogiad uchel i'r ddarpariaeth gerddorol a chelfyddydol. Mae'r ddarpariaeth yn ceisio cyflwyno ystod y sîn gerddorol yng Nghymru.

Cafwyd gwerthfawrogiad uchel i Ddeuawdau Rhys Meirion, gyda'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi gonestrwydd y cyfranwyr wrth iddynt gyfleu pwysigrwydd cerddoriaeth yn eu bywydau. Roedd y ddarpariaeth ddifyr a diddorol o wyl Cwllwm Celtaidd Glasgow yn gyfle i weld a chlywed artistiaid gwerin a cherddoriaeth cyfoes o nifer o wledydd Celtaidd. Roedd lle hefyd i gyfresi sydd wedi ennill eu plwyf, a thro'r bandiau pres oedd hi i gystadlu. Mae Band Cymru yn denu gwylwyr a gwerthfawrogiad trwy Gymru a thu hwnt.

Music and Arts

S4C's reputation as a channel that shows the best music programmes in Wales continues, with high appreciation scores for music and arts provision. The provision seeks to present the whole range of the music scene in Wales.

There was high appreciation of Deuawdau Rhys Meirion, with the audience responding particularly to the contributors' sincerity in explaining the importance of music in their lives. The entertaining and interesting provision from Celtic Connections in Glasgow gave an opportunity to see and hear folk music and contemporary artists from many Celtic countries. There was a place too for the return of established series and this time it was the turn of the brass bands to compete. Band Cymru attracts viewers and appreciation throughout Wales and beyond.





Crefydd

Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol ac Oedfa a Chymanfa Ganu'r Eisteddfod Genedlaethol yn parhau i angori'r ddarpariaeth grefyddol, ac er bod nifer o raglenni ffeithiol eraill yn ymdrin â phynciau a safbwyntiau crefyddol a moesol, cyfyng yw'r ddarpariaeth. Mae Dechrau Canu yn darparu gwasanaeth pwysig ar gyfer carfan o'r gynulleidfa graidd, ac mae'n bwysig sicrhau fod y ddarpariaeth yn ymateb i'w anghenion. Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi nodi elfen o bryder nad yw'r arlwy crefyddol yn adlewyrchu ystod eang o grefyddau a safbwyntiau crefyddol.

Religion

Dechrau Canu Dechrau Canmol and the Oedfa and Cymanfa Ganu from the National Eisteddfod continue to anchor the religious provision, and although a number of other factual programmes cover religious and moral topics and viewpoints the provision is limited. Dechrau Canu provides an important service for sections of the core audience, and it is important to ensure that the provision responds to their needs. In the past, the Authority has noted an element of concern that the provision does not reflect a wider range of religions, faiths and viewpoints.

Dysgwyr

Mae'r ddarpariaeth i ddysgwyr, a rôl S4C o ran cynorthwyo dysgwyr y Gymraeg, yn bwnc sy'n cael sylw rheolaidd yn ein Nosweithiau Gwylwyr. Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'r ddarpariaeth yn gyson uchel.

Un o'r cwestiynau sylfaenol ym maes dysgwyr yw ai cynnig gwersi dysgu iaith yw'r cyfraniad gorau y gall S4C ei wneud, neu oes gan S4C rôl bwysicach wrth gefnogi dysgwyr o ran cyflwyno cyd-destun cyfoes yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gobeithir y bydd partneriaeth newydd S4C gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ein galluogi i baratoi rhaglenni a deunyddiau arlein a fydd yn gweddu i'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu.

Learners

The provision for learners, and S4C's role in assisting Welsh learners is a subject that is addressed regularly in our 'Viewers' Evenings. Audience appreciation of the provision is consistently high.

One of the fundamental questions relating to learners is whether S4C's contribution is best focused on providing language lessons, or whether S4C has a more important role in supporting learners by presenting the contemporary context of the Welsh language and culture. We hope that S4C's new partnership with the National Centre for Learning Welsh will enable us to produce programmes and online materials tailored to the new curriculum being developed.



Ffermio a Gwledig

Mae taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd trefol a bywyd cefn gwlad yn bwysig o fewn un sianel S4C, ac mae'n ymddangos o waith ymchwil Tracio Delwedd S4C fod y gynulleidfa'n credu fod S4C yn llwyddo i adlewyrchu'r cydbwysedd yn llwyddiannus.

Mae 80% o'r gwylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n darparu rhaglenni ffermio o safon - sy'n ganran tipyn uwch nag unrhyw sianel arall. Mae Cefn Gwlad a Ffermio hefyd yn denu sgôr gwerthfawrogiad cyson uchel drwy gydol y flwyddyn. Ond yr her barhaus i'r timau cynhyrchu yw ceisio adlewyrchu realiti modern bywyd cefn gwlad a phynciau sy'n berthnasol i'r gymuned amaethyddol gyfoes.

Farming and Rural Life

Ensuring the appropriate balance between programmes that reflect urban life and rural life is important within S4C's one channel, and S4C's Image Tracking survey suggest that the audience believe that S4C manages to reflect this balance successfully.

80% of Welsh speaking viewers believe that S4C is channel that provides quality farming programmes - much higher than the percentage for any other channel. Cefn Gwlad and Ffermio consistently attract high appreciation scores throughout the year. The constant challenge for the production teams is to strive to reflect the reality of modern rural life and issues of relevance to the contemporary agricultural community.



Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer 2016/17

Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi sut y mae S4C wedi cyflawni'r Blaenoriaethau Strategol yn ystod 2016/17.

- 1. Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.**
- 2. Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.**
- 3. Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.**
- 4. Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.**

S4C's Strategic Priorities for 2016/17

S4C's activities are guided by four Strategic Priorities, developed to provide focus to S4C's work and to ensure that all of S4C's activities respond to the needs of the audience.

This Annual Report sets out how S4C has delivered its Strategic Priorities during 2016/17.

- 1. Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.**
- 2. Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.**
- 3. Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.**
- 4. Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.**

Sut mae S4C wedi cyfawni'r Blaenoriaethau Strategol

1. Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.

- Darparwyd amrywiaeth eang o gynnwys cyfryngau cyhoeddus ar y gwasanaeth teledu ac arlein.
- Cafwyd arlwy safonol a phoblogaidd a werthfawrogydd gan y gynulleidfa – yng Nghymru a ledled y DU.
- Lle roedd hawliau'n caniatáu, roedd ystod ehangach o raglenni ar gael ar sail ryngwladol.
- Roedd sicrhau'r gallu i'n cynulleidfa wylwio rhaglenni S4C ar lwyfannau a gwasanaethau poblogaidd yn flaenoriaeth eto, ac ehangwyd dosbarthiad cynnwys S4C, gydag ystod ehangach o lwyfannau a dyfeisiau yn cael eu defnyddio, gan gynnwys BBC iPlayer, S4C Arlein a Facebook.
- Cafwyd ymateb syfrdanol i'r ddarpariaeth ar Facebook Live, Twitter a Youtube a gwelwyd dros 18 miliwn o sesiynau gwylwio yn ystod y flwyddyn.
- Ail-gyflwynwyd gwasanaeth Maylder Uwch – HD ar lwyfannau lloeren Sky a Freesat ar draws y DU.
- Gwnaed hyn yn dilyn adborth oddi wrth y gwylwyr fod risg y gallai'r ansawdd technegol, yn enwedig tra'n darparu digwyddiadau chwaraeon a dramâu, fod yn israddol o'i gymharu gyda safon darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.
- Lanswyd y gwasanaeth HD mewn pryd ar gyfer pencampwriaeth Euro 2016.
- Gwelwyd cynnydd yng nghyrrhaeddiad y gwasanaeth ar deledu ymysg siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.
- Roedd patrymau gwylwio ar draws y DU yn parhau i newid, gyda gostyngiad yn nifer y gwylwyr a oedd yn gwylwio am o leiaf 3 munud olynol ar sail wythnosol, ond cynnydd o ran y nifer oedd yn gwylwio ar draws y DU ar sail 15 munud olynol ar sail fisol.
- Mae hyn yn awgrymu fod llai o wylwyr achlysurol yn troi at wasanaeth S4C, ond bod mwy o wylwyr selog yn dewis gwylwio mwy o raglenni am gyfnodau hirach.
- Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa i gynnwys S4C yn parhau i fod yn uchel iawn.
- Mae S4C yn parhau i gael effaith sylweddol - yn ieithyddol, yn ddiwylliannol, yn economaidd ac o fewn y sector addysg.

How S4C has delivered its Strategic Priorities

1. Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.

- A wide range of public service media content was provided on the television service and online.
- The service provided was of a high standard and was appreciated by the audience – in Wales and across the UK.
- Where rights permitted, an increasing range of programming was made available on an international basis.
- Ensuring opportunities for our audience to watch S4C programmes on popular platforms and services continued to be a priority, and distribution of S4C's content was enhanced, with a wider range of platforms and devices, including BBC iPlayer, S4C Arlein and Facebook.
- On Facebook Live, Twitter and Youtube, the response to S4C's content was overwhelming, with more than 18 million viewing sessions during the year.
- A High Definition version of S4C's service was re-launched on the Sky HD and Freesat satellite platforms across the UK.
- This was as a result of feedback from viewers that technical quality could be at risk of being considered inferior to that of other public service broadcasters, especially when providing coverage of sporting events and drama.
- The HD service was launched in time for the Euro 2016 championship.
- In Wales, reach of the service on television among Welsh speakers increased during the year.
- Viewing patterns across the UK continued to change, with a reduction in the number of viewers who watched for at least 3 consecutive minutes on a weekly basis, and an increase in the number of viewers across the UK who watched for 15 consecutive minutes or more on a monthly basis.
- This suggests that fewer casual viewers are turning to the S4C service on television, but that a greater number of viewers are choosing to watch S4C for longer periods.
- The audience's appreciation of S4C's service continues to be very high.
- S4C continues to have a significant impact - linguistically, culturally, economically and within the education sector.



2. Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.

- Roedd Nosweithiau Gwylwyr yn parhau i fod yn elfen bwysig o ymgysylltu gyda'n gwylwyr yn ystod y flwyddyn. Maent yn rhoi cyfle i'r gwylwyr drafod eu barn am wasanaeth S4C yn uniongyrchol gydag S4C ac i S4C wrando ar farn y gynulleidfa.
- Yn ystod y flwyddyn cafwyd nosweithiau llwyddiannus yn Abertawe, Blaenau Ffestiniog a Lerpwl.
- Cynhaliwyd prosiect ymchwil cyhoeddus i ddsysgu rhagor am ddisgwyliadau cynulleidfa S4C yn 2016. Cynhaliwyd ymchwil arlein ac mewn digwyddiadau cenedlaethol. Bu'r prosiect yn trafod gyda grwpiau o'r gynulleidfa ar draws Cymru - o bob oedran, cefndir demograffig a gallu ieithyddol.
- Mae ffrwyth y prosiect yn ganolog i Strategaeth Cynnwys a Digidol newydd S4C a bydd yn gymorth i sicrhau bod gwasanaethau S4C yn berthnasol i'r gynulleidfa - o ran disgwyliadau parthed cynnwys ac ansawdd, dulliau o ddefnyddio cynnwys a rhyngweithio rhwng S4C a'i gymuned o wylwyr.
- Roedd Gwifren Gwylwyr - llinell gymorth gwylwyr S4C - ar gael 365 diwrnod y flwyddyn i ateb ymholiadau gwylwyr arlein, dros y ffôn a thrwy'r post.
- Derbyniodd Gwifren dros 13,000 o gyfathrebiadau'n ystod y flwyddyn.
- Cynhaliwyd trafodaeth barhaus rhwng y gynulleidfa ac S4C ar ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter, Facebook, Instagram, Snapchat a Periscope.
- Gwelwyd cynnydd o 236% o ran ymgysylltu gydag S4C drwygyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan S4C yn cynyddu ymwybyddiaeth y gynulleidfa o ddarpariaeth S4C. Mae 56% o bobl 16-34, 56% o bobl mewn cartrefi ieithyddol gymysg a 41% o wylwyr ysgafnach o'r farn eu bod yn fwy ymwybodol o gynnwys S4C nac yr oeddent flwyddyn yn ôl yn bennaf o ganlyniad i weithgaredd S4C ar gyfryngau cymdeithasol.
- Roedd presenoldeb S4C mewn digwyddiadau cenedlaethol yn parhau'n ddull pwysig iawn i gyfarfod a thrafod gyda'r gynulleidfa a chynhaliwyd rhaglen lawn o weithgareddau yn yr Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol.
- Daeth mwy na 36,000 o aelodau'r gynulleidfa i ddigwyddiadau cyhoeddus S4C yn ystod y flwyddyn.

2. Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.

- Viewers' Evenings continued to form an important element of engagement with our viewers during the year. They provide an opportunity for viewers to discuss their opinion of S4C's service directly with S4C and for S4C to listen to the views of the audience.
- During the year we held successful evenings in Swansea, Blaenau Ffestiniog and Liverpool.
- A public research project was undertaken to learn more about audience expectations of S4C in 2016. Research was conducted online and at national events, with discussions held with audience groups across Wales - of all ages, demographic backgrounds and linguistic ability.
- The project's findings have informed S4C's new Content and Digital Strategy and will help to ensure that S4C's services are relevant to the audience - in terms of expectations of content and quality, how content is accessed and interaction between S4C and its community of viewers.
- Gwifren Gwylwyr, S4C's viewers' hotline, was available 365 days a year to answer queries from viewers online, by telephone and by post.
- The hotline received more than 13,000 communications during the year.
- S4C participated in a constant discussion with the audience on a range of social media platforms, including Twitter, Facebook, Instagram, Snapchat and Periscope.
- Engagement with S4C on social media increased 236%.
- Use of social media increases the audience's awareness of S4C's provision. 56% of 16-34, 56% of people in mixed language households and 41% of lighter viewers state they are more aware of S4C's content than they were a year ago primarily due to S4C's activity on social media.
- S4C's presence at national events remains a very important means of meeting and discussing with the audience and a full programme of activities was offered at the Eisteddfodau and the Royal Welsh Show.
- More than 36,000 audience members attended S4C's public events during the year.



3. Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.

- Mae S4C yn ymroddedig i ddatblygu partneriaethau arloesol a chreadigol gyda'r sector gynhyrchu annibynnol, a sefydliadau ledled Cymru lle gall ein partneriaid a ni fanteisio i'r eithaf ar effaith ein gweithgareddau.
- Cynhaliwyd perthynas gref, adeiladol a chreadigol gyda'r sector gynhyrchu annibynnol yng Nghymru er mwyn galluogi S4C i ddarparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel, ac er mwyn i'r cwmnïau cynhyrchu allu datblygu sgiliau ac arbenigedd o fewn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.
- Gwelwyd ffrwyth partneriaeth S4C gyda'r BBC yn parhau i gynnig cyfleoedd creadigol a technolegol i gydweithio.
- Mae'r berthynas unigryw gyda'r BBC yn parhau i ddatblygu, gyda'r bartneriaeth yn datblygu syniadau a phrosiectau creadigol newydd, prosiectau technoleg newydd megis iPlayer a rhagor o waith rhagbarataol mewn perthynas â'r bwriad i gydleoli gweithgareddau technegol S4C a BBC Cymru yng nghanolfan ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd.
- Cadarnhawyd ariannu S4C o Ffi'r Drwydded ar gyfer y cyfnod 2017-18 i 2021-22 yng Nghytundeb Fframwaith y BBC, ac mae S4C a'r BBC yn datblygu strwythur newydd ar gyfer y bartneriaeth ac atebolrwydd ariannol ar gyfer defnydd arian Ffi'r Drwydded.
- Cynhaliwyd partneriaethau ffurfiol gydag amrywiaeth o sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys
 - Yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen,
 - Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru,
 - Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol,
 - Mudiad Meithrin,
 - Urdd Gobaith Cymru,
 - Cyngor Llyfrau Cymru,
 - Cyngor Celfyddydau Cymru,
 - Canolfan y Mileniwm,
 - Theatr Genedlaethol Cymru,
 - Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol,
 - BAFTA Cymru,
 - It's My Shout,
 - Llenyddiaeth Cymru, a
 - Ffilm Cymru Wales.

3. Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.

- S4C is committed to developing innovative and creative partnerships with the independent production sector and organisations across Wales so that we can maximise the impact of our activities.
- A strong, constructive and creative relationship was sustained with the independent production sector in Wales to enable S4C to deliver high quality and innovative services and the production companies to develop the skills base and expertise within the creative industries in Wales.
- S4C's partnership with the BBC continues to offer opportunities for creative and technological collaboration.
- The unique relationship with the BBC continues to develop, with the partnership developing new creative ideas and projects, technology projects such as iPlayer and further preparatory work relating to the intention to collocate S4C and BBC Cymru's technical functions in the BBC's new broadcast centre in Central Square in Cardiff.
- S4C's funding from the BBC Licence Fee for the period 2017-18 to 2021-22 was confirmed in the BBC's Framework Agreement, and S4C and the BBC are developing a new structure for the overall partnership and the financial accountability for use of Licence Fee funding.
- Partnership work continued with a range of organisations across Wales, including formal partnerships with
 - The National Eisteddfod, the Urdd Eisteddfod and the Llangollen International Eisteddfod,
 - The Royal Welsh Agricultural Society,
 - The National Centre for Learning Welsh,
 - Mudiad Meithrin,
 - Urdd Gobaith Cymru,
 - Welsh Books Council,
 - Arts Council Wales,
 - The Wales Millennium Centre,
 - Theatr Genedlaethol Cymru,
 - Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol,
 - BAFTA Cymru,
 - It's My Shout,
 - Literature Wales, and
 - Ffilm Cymru Wales.



4. Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.

- Mae sicrhau gwerth am arian yn parhau'n flaenoriaeth i S4C – er mwyn gallu buddsoddi mwyafrif helaeth incwm cyhoeddus S4C yn y gwasanaeth a ddarperir i'r gynulleidfa.
- Mae Rhaglen Effeithlonrwydd S4C wedi bod ar waith ers 2012, a bellach, mae dros £21 miliwn o arbedion effeithlonrwydd gros cyfansawdd wedi eu cyflawni yn unol â'r rhaglen effeithlonrwydd.
- Mae'r cyfleoedd i ganfod arbedion newydd o fewn gweithgareddau mewnol S4C yn mynd yn llai bob blwyddyn wrth i'r prif arbedion gael eu cyflawni. Serch hyn, canfuwyd rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn.
- Mae cost fesul awr y gwasanaeth yn parhau'n isel iawn o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.
- Cyfartaledd cost yr awr S4C yn ystod y flwyddyn oedd £11,211.
- Mae cost darparu'r gwasanaeth fesul wythnos i gynulleidfa S4C yn parhau'n isel iawn ar £0.87 fesul gwylwr teledu.
- Mae Effaith Economaidd S4C – yng Nghymru ac ar draws y DU yn parhau i fod yn sylweddol.
- Am bob £1 y mae S4C yn ei wario, mae hyn yn creu cyfanswm gwerth o £2.09 - mwy na dwbl y swm gwreiddiol.
- Mae cyfanswm effaith economaidd S4C ar draws y DU yn £170m y flwyddyn.
- Parhawyd i ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd tymor hir, gan gynnwys y prosiectau i adleoli pencadlys S4C i Ganolfan Yr Egin yng Nghaerfyrddin ac i gyd-leoli gwasanaethau technegol darlledu S4C gyda BBC Cymru yn eu canolfan ddarlledu newydd yng nghanol Caerdydd.
- Roedd gweithgareddau masnachol yn parhau i ddarparu refereniw ychwanegol ar gyfer S4C yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r strategaeth fasnachol newydd yn parhau i gael ei ddatblygu, ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau'r gronfa fasnachol i ychwanegu gwerth i gynnwys a brandiau adnabyddus S4C.

4. Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.

- Ensuring value for money remains a priority- to enable S4C to invest the majority of its public income in the service provided to the audience.
- S4C's Efficiency Programme, which has been in place since 2012 has now delivered more than £21 million of cumulative gross efficiency savings.
- Opportunities to identify new efficiencies within S4C's internal activities decrease every year as the main efficiencies have already been achieved. Nevertheless, further efficiencies were identified during the year.
- The cost per hour of the service remains very low compared with other public service broadcasters.
- S4C's average cost per hour during the year was £11,211.
- The cost of providing the service to the audience each week remains low at £0.87 per TV viewer.
- S4C's economic Impact - in Wales and across the UK continues to be significant.
- Every £1 that S4C spends, creates a total value of £2.09 - more than double the original amount.
- S4C's total economic impact across the UK is £170m per annum.
- Development of long term efficiency plans continued, including major projects to relocate S4C's headquarters to Yr Egin in Carmarthen and to co-locate S4C's technical services with BBC Cymru in their new broadcasting centre in central Cardiff.
- Commercial activities continued to deliver additional revenues for S4C during the year.
- S4C's new commercial strategy continues to develop, and is focussed on utilising the resources of the commercial fund to add value to S4C's well known content and brands.



Mesur Perfformiad S4C

Defnyddir ystod o fesuryddion er mwyn mesur ac asesu perfformiad gwasanaethau S4C.

Mae'r rhain yn cynnwys ffigyrau gwyllo ar gyfer teledu a gwasanaethau arlein, mesuryddion ansoddol sy'n cyflwyno darlun ehangach o ddefnydd, gwerthfawrogiad ac effaith gwasanaethau S4C ac sy'n cynnwys ystyried Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth gwasanaeth S4C.

Defnydd a Chyrhaeddiad

1. Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed gan gynnwys holl wylwyr a siaradwyr Cymraeg. (Mae'r targed hwn yn cyfeirio at Gymru, ond byddwn hefyd yn adrodd ar ffigurau DU).

2. Cynnydd pellach o o leiaf 10% i wyllo arlein i gynnwys S4C ar lwyfannau digidol gan gynnwys S4C Arlein ac iPlayer.

Gwerth

3. Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa.

Gwerthfawrogiad

4. Gwerthfawrogiad o raglenni S4C ymysg siaradwyr Cymraeg i fod cystal â rhaglenni'r prif ddarlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.

5. S4C i gael ei ystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry.

Effaith

6. Gweithgarwch darlledu S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.

7. Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.

8. Cael canfyddiad ymysg Dysgwyr o'r Gymraeg fod S4C yn darparu ar eu cyfer yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.

Measuring S4C's performance

S4C's services are assessed using a range of performance measures

These include viewing figures for television and online services, qualitative indicators that present a wider picture of usage, appreciation and the impact of S4C's services and include consideration of the reach, quality, impact and value of S4C's service.

Usage and Reach

1. The S4C services should seek to maximise their reach among target audiences including all viewers and Welsh speakers. (This target refers to Wales, but we will also report on UK figures).

2. Further increase of at least 10% to online viewing for S4C content on digital platforms including S4C Arlein and iPlayer

Value

3. Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.

Appreciation

4. Appreciation of S4C's programmes amongst Welsh speakers to be as good as that of programmes by the other main public service broadcasters in Wales.

5. S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the Welsh people.

Impact

6. S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.

7. Appreciation and good use of the services for children.

8. Achieve a perception amongst those learning Welsh that S4C successfully provides appropriate programmes and services for them.

Y Ffigyrau Gwyllo

Defnydd a Chyrhaeddiad gwasanaethau S4C

1. Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed gan gynnwys holl wylwyr a siaradwyr Cymraeg.

(Mae'r targed hwn yn cyfeirio at Gymru, ond byddwn hefyd yn adrodd ar ffigurau'r DU).

Beth yw 'Cyrhaeddiad'?

Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir ar gyfer nodi faint o bobl unigol sy'n gwyllo gwasanaethau S4C ar deledu (a lle nodir hynny ar lwyfannau eraill) dros gyfnod penodol.

Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar fesur wythnosol 3 munud safonol BARB. Sef y mesur mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth teledu S4C, fel sianel gydag amserlen amrywiol yn ystod y flwyddyn, a sianel sy'n darlledu hysbysebion.

Rydym hefyd yn cyhoeddi ac yn cadw llygad ar feini prawf cyrhaeddiad eraill, gan gynnwys y mesur 15 munud misol a chyrhaeddiad blynyddol y sianel fel dangosydd o effaith y sianel dros gyfnod o flwyddyn.

Mae'r mesuryddion hyn yn cyfrannu at ddarlun mwy cynhwysfawr a chywir o'r defnydd o'r gwasanaeth gan ystod eang o wylwyr.

Mae'r mesur cyrhaeddiad safonol a ddefnyddir gan ddarlledwyr ym Mhrydain yn gyfyngedig i fesur gwyllo ar deledu ac nid yw'n ystyried defnydd o gynnwys ar lwyfannau digidol. Mae'r defnydd a wneir o gynnwys S4C ar lwyfannau digidol yn ystyriaeth bwysig, ac adroddir ar y defnydd hwn ar wahân. Nid yw'r data cyrhaeddiad isod, oni nodir fel arall, yn cynnwys defnydd arlein o gynnwys S4C.

The viewing figures

Usage and Reach of S4C's services

1. The S4C services should seek to maximise their reach among target audiences including all viewers and Welsh speakers.

(This target refers to Wales, but we will also report on UK figures).

What is 'Reach'?

Reach is the term used to indicate how many individuals watch S4C's services on television (and, where indicated, on other platforms) over a particular period.

This assessment is based on the BARB standard 3 minute weekly measurement, which is the most suitable measurement for a service such as S4C's, as a channel with a varied schedule during the year and also a channel that includes adverts.

We also publish and review other reach criteria, including the 15 minute monthly measurement and the channel's annual reach as an indicator of the channel's impact during the year.

Such measures contribute to a more comprehensive and accurate picture of the usage of the service by a wide range of viewers.

The standard reach measures used by broadcasters in the UK are limited to measuring TV viewing and do not consider the use of content on digital platforms. The use of S4C content on digital platforms is an important consideration, and this is reported on separately below. Unless noted otherwise, the reach data below does not include online use of S4C content.

71%

71% o oedolion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn gwyllo S4C bob wythnos. (Gan gynnwys teledu ac arlein. Ffynhonell: Panel Cyfryngau Cymru)

71% of adults who speak Welsh in Wales watched S4C each week. (Including TV and online. Source: Media Panel Wales)

347,000

347,000 Nifer y gwylwyr yng Nghymru sy'n gwyllo ar gyfartaledd bob wythnos (2015/16: 343,000)

347,000 The number of viewers in Wales who watched on average each week (2015/16: 343,000)

173,000

173,000 Nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n gwyllo ar gyfartaledd bob wythnos (2015/16: 161,000)

173,000 The number of Welsh speakers in Wales who watched on average each week (2015/16: 161,000)

9.1

miliwn million

9.1 miliwn o bobl wedi gwyllo S4C ar deledu rywbryd yn ystod y flwyddyn ar draws y DU

9.1 million individuals watched S4C on television at some time during the year across the UK

614,000

